Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 9/2026

Dyddiad cyhoeddi: 27/01/2026

# Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant

# Adroddiad diweddaru terfynol

This document is also available in English

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

© Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83715-956-7

Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant
Adroddiad diweddaru terfynol

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bryer, N. a Bebb, H. (2026). Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant. Adroddiad diweddaru terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 9/2026.

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymunedau-digidol-cymru-hyder-digidol-iechyd-llesiant-adroddiad-diweddaru-terfynol

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Nerys Owens

Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost: ymchwilcyfiawndercymdeithasol@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau....2

Rhestr o dermau ....3

1. Cyflwyniad....4

2. Perfformiad a chyflawniadau ....6

2.1 Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau: Blynyddoedd 1 i 3 (Gorffennaf 2019 i Fehefin 2022)....6

2.2 Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau: Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5 (Gorffennaf 2022 i Fawrth 2024)....7

2.3 Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau: Blwyddyn 5 (Ebrill 2024 i Fehefin 2024), Blwyddyn 6 (Gorffennaf 2024 i Fehefin 2025) a Blwyddyn 7 (Gorffennaf i Fedi 2025)....8

2.4 Trafodaeth am gyflawniadau yn erbyn y DPA: Ebrill 2024 i Fedi 2025 ....9

DPA 1: Pobl yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus....10

DPA 2: Staff yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus ....10

DPA 3: Cymorth i sicrhau perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid ....10

2.5 Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC: Blynyddoedd 1 i 7 (Gorffennaf 2019 – Medi 2025)....11

3. Casgliadau ....13

## Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau yn ystod Blwyddyn 4 i Flwyddyn 5 (Gorffennaf 2022 i Fawrth 2024) ........ 8
Tabl 2.2: Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7 (Ebrill 2024 i Fedi 2025) ........ 9

# Rhestr o dermau

**Cymunedau Digidol Cymru (CDC)**

Rhaglen a ariennir gan Lywodraeth Cymru sy'n anelu at leihau allgau digidol a gwella sgiliau digidol sylfaenol

**Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA)**

Metrig mesuradwy a ddefnyddir i asesu'r cynnydd a wneir tuag at amcan penodol.

**Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)**

System gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig.

# 1. Cyflwyniad

Penodwyd Ymchwil OB3, gan Lywodraeth Cymru i gynnal gwerthusiad o'r rhaglen Cymunedau Digidol Cymru: hyder digidol, iechyd a llesiant (CDC). Roedd CDC yn rhaglen 6 blynedd, yn dilyn penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i fynd ar drywydd yr opsiwn i ymestyn y contract cyflawni 3 blynedd gwreiddiol. Darparwyd y rhaglen gan Cwmpas, ar y cyd â'r Good Things Foundation a Phrifysgol Abertawe, i leihau allgau digidol a helpu i wella lefelau sgiliau digidol sylfaenol ledled Cymru.

Buddsoddodd Llywodraeth Cymru £6 miliwn o gyllid refeniw yn y rhaglen dros gyfnod o 3 blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2019 a 31 Mehefin 2022 (y cam cyntaf, Blynyddoedd 1 i 3). Dyrannwyd cyllid refeniw ychwanegol o £6 miliwn am gyfnod pellach o 3 blynedd rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 31 Mehefin 2025 (yr ail gam, Blynyddoedd 4 i 6). Yn ddiweddarach, rhoddwyd estyniad pellach o 3 mis i'r rhaglen gan Lywodraeth Cymru i ganiatáu iddi barhau tan 30 Medi 2025 a dyrannwyd cyllid ychwanegol o £0.5 miliwn at y diben hwn.

Nodau'r gwerthusiad oedd:

- adolygu a chrynhoi'r dystiolaeth bresennol ynghylch y berthynas rhwng cynhwysiant digidol ac iechyd
- adolygu pa mor effeithiol ac effeithlon y darparwyd y rhaglen
- asesu i ba raddau y mae amcanion y rhaglen wedi'u cyflawni a'r targedau wedi'u cyrraedd
- darparu tystiolaeth o ganlyniadau'r rhaglen i unigolion a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

Cynhaliwyd y gwerthusiad mewn tri phrif gam:

- roedd y cam cyntaf yn cynnwys paratoi adroddiad gwerthusiad proses a damcaniaeth newid, a gyhoeddwyd yn 2021.
- roedd yr ail gam yn cynnwys paratoi adroddiad gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau, a gyhoeddwyd yn 2022 ac adroddiad diweddaru byr ar berfformiad y rhaglen, a gyhoeddwyd yn 2023
- roedd y trydydd cam yn cynnwys paratoi adroddiad gwerthuso terfynol crynodol, a gyhoeddwyd yn 2025. Nid oedd yr adroddiad terfynol hwn yn cynnwys data ac allbynnau o'r adroddiadau chwarterol terfynol ar gyfer blwyddyn 6 y rhaglen (Chwarter 3 a Chwarter 4) a gasglwyd ar ôl cwblhau'r adroddiad terfynol ac a ddarparwyd yn hydref 2025.

Mae'r adroddiad diweddaru terfynol hwn yn seiliedig ar y dystiolaeth yn adroddiadau cynnydd chwarterol y rhaglen ac yn darparu asesiad o'r perfformiad cyffredinol yn erbyn targedau y cytunwyd arnynt. Mae'n canolbwyntio'n benodol ar y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2024 a mis Medi 2025. Ni wnaed unrhyw waith maes ychwanegol wrth baratoi'r adroddiad hwn.

# 2. Perfformiad a chyflawniadau

Mae'r bennod hon yn ystyried perfformiad a chyflawniadau cyffredinol rhaglen y rhaglen CDC.

## 2.1 Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau: Blynyddoedd 1 i 3 (Gorffennaf 2019 i Fehefin 2022)

Darperir dadansoddiad manwl o berfformiad dros 3 blynedd gyntaf y rhaglen, rhwng 2019 a 2023, yn adroddiad diweddaru 2023.

Yn ystod cam cyntaf CDC a hyd ddiwedd mis Mawrth 2021, adroddodd y rhaglen ar 9 dangosydd perfformiad allweddol (DPA) blynyddol. Rhestrir y DPAau isod. Daeth ein gwerthusiad interim o'r broses a'r canlyniadau i'r casgliad fod y rhaglen yn perfformio'n dda yn erbyn 4 o'r 9 DPA (DPAau 1, 4, 6, a 9), gan ragori ar 2 ohonynt, a hynny o gryn dipyn. Roedd yn perfformio'n rhesymol o dda yn erbyn 3 DPA allweddol arall (DPAau 2, 5 ac 8) ond roedd yn tanberfformio'n sylweddol yn erbyn y 2 arall (DPAau 3 a 9).

**Dangosyddion Perfformiad Allweddol (Gorffennaf 2019 i Fawrth 2021)**

| | |
|---|---|
| DPA 1 | Pobl a gafodd gymorth uniongyrchol drwy ymyriadau dwys |
| DPA 2 | Pobl a gafodd gymorth anuniongyrchol drwy ymgysylltu â sefydliadau |
| DPA 3 | Sefydliadau mawr yn y sector preifat yr ymgysylltwyd â nhw |
| DPA 4 | Cyrff y trydydd sector a'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw |
| DPA 5 | Sefydliadau'r sector cyhoeddus yr ymgysylltwyd â nhw (gan gynnwys pob Bwrdd Iechyd ac Awdurdod Lleol) |
| DPA 6 | Gwirfoddolwyr Cynhwysiant Digidol a gafodd eu recriwtio a'u lleoli gan sefydliadau a gefnogir gan y rhaglen |
| DPA 7 | Staff iechyd a gofal a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd |
| DPA 8 | Cleifion a gafodd gymorth i ddefnyddio technoleg er mwyn gwella canlyniadau iechyd |
| DPA 9 | Staff Rheng Flaen (heblaw am iechyd a gofal) a hyfforddwyd i gefnogi defnyddwyr gwasanaethau i ddefnyddio technoleg |

Adolygodd Llywodraeth Cymru a CDC y 9 dangosydd gwreiddiol a chytuno i fabwysiadu 4 DPA a 3 chanlyniad ar lefel rhaglen o 1 Ebrill 2021 ymlaen. Mae'r DPAau a'r canlyniadau newydd i'w gweld yn Nhabl 2.1 a Thabl 2.2. Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mehefin 2022, rhagorodd y rhaglen CDC ar ei tharged ar gyfer DPA 1 (Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus) ond, er bod cynnydd da wedi'i wneud yn erbyn y tri dangosydd arall, ni wnaeth y rhaglen eu cyflawni'n llawn.

## 2.2 Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau: Blwyddyn 4 a Blwyddyn 5 (Gorffennaf 2022 i Fawrth 2024)

Dros ail gam y cyllid, gosodwyd targedau blynyddol ar gyfer 3 o'r 4 DPA. Mae dadansoddiad manwl o berfformiad hyd fis Mawrth 2024 i'w weld yn yr adroddiad gwerthuso terfynol crynodol ac mae wedi'i grynhoi yn Nhabl 2.2. Dylid nodi y cyfrifwyd 3 o'r 4 targed hyn ar sail gymesur, gan ddefnyddio'r targedau blynyddol a osodwyd ar gyfer y rhaglen CDC am y cyfnod 3 blynedd rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mehefin 2025. Fodd bynnag, yn achos DPA 3, ni osodwyd unrhyw dargedau blynyddol, felly disgwyliwyd cyflawni'r targed cyffredinol o 55 dros gyfnod o 3 blynedd.

Dros y cyfnod o 21 mis rhwng mis Gorffennaf 2022 a mis Mawrth 2024, rhagorodd y rhaglen ar ei tharged ar gyfer DPA 1 (Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus) a gwnaeth gynnydd da yn erbyn DPA 2 (Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion) a DPA 4 (Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus). Erbyn mis Mawrth 2024, roedd y rhaglen wedi cyflawni dros hanner y targed 3 blynedd a osodwyd ar gyfer DPA 3 (Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau). O dan DPA 3, bu'r rhaglen yn arbennig o lwyddiannus o ran cefnogi sefydliadau’r trydydd sector a chyrhaeddodd o leiaf hanner ei tharged gyda sefydliadau’r sector cyhoeddus hefyd. Ni chyrhaeddodd y targed bach a neilltuwyd i gefnogi sefydliadau'r sector preifat.

**Tabl 2.1: Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau yn ystod Blwyddyn 4 i Flwyddyn 5 (Gorffennaf 2022 i Fawrth 2024)**

| Rhif DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | Targed | Cyflawnwyd | Cyflawnwyd fel % |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Pobl yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol, a hyder) | 59,500 | 65,752 | 111% |
| 2 | Gwirfoddolwyr yn darparu cymorth i ddinasyddion | 1,750 | 1,530 | 87% |
| 3 | Cymorth i sicrhau bod cynhwysiant digidol yn cael ei gydnabod yn strategol a'i ymgorffori ym mhrosesau cyflawni sefydliadau ar draws y: | | | |
| | • *Sector Preifat* | *10* | *0* | *0%* |
| | • *Awdurdodau Lleol* | *12* | *6* | *50%* |
| | • *Byrddau Iechyd (Cynlluniau Tymor Canolig Integredig)* | *9* | *5* | *56%* |
| | • *Trydydd Sector a'r Sector Cyhoeddus* | *24* | *20* | *83%* |
| | Cyfanswm | 55 | 31 | 56% |
| 4 | Staff iechyd a gofal, y sector cyhoeddus, y sector preifat a’r trydydd sector yn cael eu cefnogi i ddod yn ddigidol hyderus | 4,050 | 3,525 | 87% |

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol Rhaglen CDC

## 2.3 Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau: Blwyddyn 5 (Ebrill 2024 i Fehefin 2024), Blwyddyn 6 (Gorffennaf 2024 i Fehefin 2025) a Blwyddyn 7 (Gorffennaf i Fedi 2025)

Rhoddwyd cynllun cyflawni newydd ar waith ar gyfer 15 mis olaf y cyfnod cyflawni, yn cwmpasu Ebrill 2024 i Fehefin 2025, a gafodd ei ymestyn wedi hynny am gyfnod terfynol o 3 mis tan fis Medi 2025. Roedd y cynllun cyflawni newydd hwn yn cynnwys 3 DPA, yn hytrach na 4. Gosodwyd y rhain ar gyfradd is i ddechrau o'i gymharu â chyfnodau cyflawni blaenorol i adlewyrchu'r newid i ddull cyflawni mwy thematig sy'n canolbwyntio ar nifer lai o feysydd blaenoriaeth, gan gynnwys iechyd, gofal cymdeithasol, tai cymdeithasol, pobl hŷn a chymunedau Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol o fis Ebrill 2024 ymlaen, a'r cyfnod dirwyn i ben a chau yn ystod ychydig fisoedd olaf y rhaglen. Gosodwyd targedau diwygiedig hefyd i adlewyrchu'r estyniad o 3 mis rhwng Gorffennaf a Medi 2025.

Fodd bynnag, yng ngoleuni'r cynnydd cryf a gyflawnwyd erbyn canol 2024 ac i adlewyrchu'r estyniad i'r rhaglen tan fis Medi 2025, cafodd y targedau eu diwygio at i fyny yn ddiweddarach fel y dangosir yn Nhabl 2.3. Erbyn diwedd cyfnod y rhaglen ym mis Medi 2025, roedd CDC wedi rhagori ar bob un o'r 3 DPA, a hynny o gryn dipyn. Dylid canmol y rhaglen am ei pherfformiad cryf yn ystod ei misoedd olaf, gan iddi gefnogi 93,419 o bobl yn anuniongyrchol a chefnogi 2,238 o staff yn uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus dros y 18 mis olaf hyd fis Medi 2025.

**Tabl 2.2: Perfformiad CDC yn erbyn y DPAau Blwyddyn 6 i Flwyddyn 7 (Ebrill 2024 i Fedi 2025)**

| Rhif DPA | Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) | Targed gwreiddiol | Targed diwygiedig | Cyflawnwyd | Cyflawnwyd fel % |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Pobl yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) | 16,660 | 19,920 | 93,419 | 469% |
| 2 | Staff yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus (cymhelliant, sgiliau digidol sylfaenol a hyder) | 1,000 | 1,200 | 2,238 | 187% |
| 3 | Cymorth i sicrhau perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid | 6 | 8 | 15 | 188% |

Ffynhonnell: Adroddiadau chwarterol Rhaglen CDC

## 2.4 Trafodaeth am gyflawniadau yn erbyn y DPA: Ebrill 2024 i Fedi 2025

Trown yn awr i ystyried rhai o'r materion allweddol sy'n gysylltiedig â'r DPAau hyn:

## DPA 1: Pobl yn cael eu cefnogi'n anuniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus

Er nad yw'n bosibl crynhoi cyflawniadau'r rhaglen yn erbyn y DPA hwn ar draws y cyfnod cyflawni, mae'n werth nodi bod CDC wedi cefnogi 106,451 o bobl yn uniongyrchol i ddod yn fwy digidol hyderus rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024 ac wedi cefnogi 93,419 arall yn anuniongyrchol i ddod yn fwy digidol hyderus rhwng mis Ebrill 2024 a mis Medi 2025.

Ers mis Ebrill 2024, parhawyd i gyflawni'r DPA hwn yn bennaf drwy Gynlluniau Ymgynghori Digidol, a ddatblygwyd ar gyfer sefydliadau sy'n ymgysylltu â'r rhaglen CDC ac sy'n nodi sut y bydd sefydliadau'n cefnogi eu defnyddwyr/aelodau i ddod yn fwy digidol hyderus. Roedd y cynlluniau hyn yn cyfrif am 86% o'r cyflawniadau a adroddwyd yn erbyn y DPA hwn.

Roedd yr allbynnau a adroddwyd yn cynnwys pobl a gefnogwyd yn anuniongyrchol gan y rhai a gymerodd ran mewn hyfforddiant CDC - roedd yn rhaid i bob person a fynychodd hyfforddiant CDC addo y byddent yn cefnogi 5 o bobl. Roedd yr allbynnau cymorth anuniongyrchol hyn yn cyfrif am 12% o'r cyflawniadau a adroddwyd yn erbyn y DPA hwn ers mis Ebrill 2024.

## DPA 2: Staff yn cael eu cefnogi'n uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus

Rhwng mis Ebrill 2021 a mis Mawrth 2024, cefnogodd CDC 4,916 o staff i ddod yn ddigidol hyderus. Ers mis Ebrill 2024, cafodd cyfanswm o 2,238 o staff eu cefnogi'n uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus. Mae hyn yn dod â chyfanswm y staff a gafodd gymorth uniongyrchol i ddod yn ddigidol hyderus rhwng mis Ebrill 2021 a mis Medi 2025 i 7,154.

Dros 18 mis olaf y cyfnod cyflawni, parhaodd CDC i dargedu ei adnoddau'n briodol i gefnogi staff o'r sector iechyd a gofal cymdeithasol. Ers mis Ebrill 2024, roedd 57% o'r cyflawniadau a adroddwyd yn erbyn y DPA hwn yn ymwneud â staff mewn sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol, ac roedd y 43% sy'n weddill wedi'u lleoli mewn sectorau eraill, yn fwyaf nodedig sefydliadau'r trydydd sector.

Cafodd ychydig dros hanner yr hyfforddiant a ddarparwyd dros y 18 mis rhwng Ebrill 2024 a Medi 2025 ei ddarparu i staff ar-lein. Er enghraifft, roedd 25 o blith y 46 sesiwn a gyflwynwyd yn ystod chwarter olaf, sef Gorffennaf i Fedi 2025, yn sesiynau ar-lein. Y sesiynau hyfforddi a gynhaliwyd amlaf oedd hyrwyddwyr digidol, offer digidol i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia, diogelwch ar-lein, gweithgareddau digidol ysbrydoledig, hygyrchedd digidol a helpu pobl i fynd ar-lein. Cyflwynwyd nifer o sesiynau wedi'u teilwra ar gyfer sefydliadau unigol hefyd.

## DPA 3: Cymorth i sicrhau perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid

Mae adroddiad chwarterol terfynol CDC ar gyfer mis Medi 2025 yn nodi bod y rhaglen wedi ymgysylltu â chyfanswm o 2,202 o sefydliadau, ac o blith y rhain, roedd 854 wedi cael Cynllun Ymgynghori Digidol.

Adroddwyd allbwn o 15 sefydliad yn erbyn y DPA hwn, ac roedd y rhain yn cynnwys elusennau, byrddau iechyd, ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), awdurdodau lleol a chymdeithasau tai.

## 2.5 Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC: Blynyddoedd 1 i 7 (Gorffennaf 2019 i Medi 2025)

Roedd adroddiadau gwerthuso blaenorol yn ystyried yr adborth a gasglwyd gan y rhaglen CDC gan sefydliadau cleientiaid ac unigolion a hyfforddwyd, er mwyn mesur i ba raddau yr oedd canlyniadau'r rhaglen yn cael eu cyflawni.

Roedd gwelliant amlwg yn y canlyniadau a adroddwyd gan gyfranogwyr hyfforddedig dros hanner cyntaf y rhaglen. Er bod yr adborth gan sefydliadau a gefnogwyd yn dangos darlun ychydig yn fwy cymysg, roedd gwelliant yn y canlyniadau a adroddwyd gan y sefydliadau a gymerodd ran ynddi erbyn canol y rhaglen.

O fis Gorffennaf 2023 ymlaen (dechrau Blwyddyn 5), defnyddiwyd dangosyddion adrodd canlyniadau gwahanol gan CDC sy'n golygu nad yw'n bosibl cyfuno'r data â data blynyddoedd blaenorol.

Mae Tabl 2.3 yn nodi'r data canlyniadau a adroddwyd gan CDC dros 9 mis olaf y rhaglen o fis Ionawr i fis Medi 2025 (6 mis olaf Blwyddyn 6 a chwarter cyntaf Blwyddyn 7). Mae'n dangos bod y rhaglen wedi parhau i weld cyfrannau uchel iawn o gyfranogwyr hyfforddedig yn adrodd am ganlyniadau cadarnhaol oherwydd eu hymgysylltiad â'r rhaglen.

Ymddengys fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol nodedig ar hyder y cyfranogwyr i aros yn ddiogel ar-lein, ac yna mwy o hyder wrth helpu eraill, cyfathrebu ar-lein, a datrys problemau ar-lein. Roedd cyfran uchel, sef 94%, hefyd o'r farn eu bod yn deall yn well sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd oherwydd iddynt gymryd rhan yn CDC.

**Cynnydd yn erbyn canlyniadau'r rhaglen CDC (Ionawr i Fedi 2025)**

Canlyniad 1: Pobl yn meddu ar ddigon o sgiliau digidol sylfaenol a hyder i allu ymgysylltu'n ddigidol (a chyda gwasanaethau digidol) yn eu bywydau beunyddiol a'u bywydau gwaith

- Roedd 98 y cant yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd a thechnoleg.
- Dywedodd 100% y cant eu bod yn gwybod sut i aros yn ddiogel ar-lein.
- Roedd 96% y cant yn teimlo'n fwy hyderus yn helpu eraill i fynd ar-lein.
- Roedd 96% y cant yn teimlo'n fwy hyderus wrth gyfathrebu ar-lein.
- Roedd 96% yn teimlo'n fwy hyderus yn defnyddio'r rhyngrwyd i ddatrys problemau.

Canlyniad 2: Mwy o bobl yn defnyddio technoleg i reoli eu hiechyd (corfforol a meddyliol) a'u llesiant yn annibynnol

- Mae 94% y cant yn deall yn well sut i ddefnyddio technoleg i wella a rheoli eu hiechyd.

Canlyniad 3: Cynnydd mewn perchnogaeth o gynhwysiant digidol gan randdeiliaid a chleientiaid

- Nid adroddwyd ar unrhyw fetrigau penodol yn yr adroddiadau chwarterol yn erbyn y canlyniad hwn, ond dangoswyd tystiolaeth o’r canlyniad drwy ein hesiamplau o astudiaethau achos ym Mhennod 8 o'r adroddiad o'r adroddiad gwerthuso terfynol crynodol.

Ffynhonnell: Cyflawni'r rhaglen CDC dros 9 mis olaf y rhaglen rhwng mis Ionawr a mis Medi 2025 (318 o gyfranogwyr)

# 3. Casgliadau

Dros ei 18 mis olaf, hyd at fis Medi 2025, perfformiodd y rhaglen CDC yn dda yn erbyn ei DPA a rhagorodd yn sylweddol ar y targedau terfynol. Mae hyn yn dangos, er gwaethaf newid sylweddol a chyflwyno dull thematig newydd o fis Ebrill 2024, bod y rhaglen wedi llwyddo i gyrraedd nifer fwy o gyfranogwyr.

Roedd y cynnydd o ran cefnogi staff iechyd a gofal yn araf i ddechrau, ond gwelwyd gwelliant sylweddol dros amser a pharhaodd hynny tan fisoedd olaf y rhaglen. Cafodd y targedau heriol yn gysylltiedig â recriwtio a hyfforddi gwirfoddolwyr a gweithio gyda sefydliadau'r sector preifat eu dileu gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod cyflawni. O ganlyniad, roedd yr allbynnau terfynol a adroddwyd gan CDC yn cymharu'n gryf iawn â'r targedau a ariannwyd, er y gallai hyn guddio'n rhannol yr heriau cynharach yn ymwneud â'r rhain.

Cafodd DPAau y rhaglen CDC eu diwygio sawl gwaith gan Lywodraeth Cymru i adlewyrchu ffactorau allanol, megis y pandemig COVID-19, a'r newid i ddull cyflawni thematig. Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd crynhoi'r cyflawniadau cyffredinol ar draws cyfnod y rhaglen, ac yn amlygu gwerth mabwysiadu DPA ehangach a mwy hyblyg ar gyfer rhaglenni yn y dyfodol a all ddarparu ar gyfer unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth.

Mae tystiolaeth a gasglwyd gan y rhaglen yn dangos bod y rhan fwyaf o gyfranogwyr wedi adrodd eu bod wedi cael canlyniadau gwell. Mae data astudiaethau achos a gasglwyd drwy ymchwil gwreiddiol fel rhan o'r gwerthusiad crynodol terfynol yn cadarnhau bod CDC wedi cyflawni 3 chanlyniad craidd y rhaglen yn effeithiol.

At ei gilydd, llwyddodd y rhaglen i gyflawni ei hamcanion, cyrhaeddodd ystod eang o gyfranogwyr, ac arweiniodd at fuddion ystyrlon i'r rhai a gymerodd ran ynddi.